Adrodd i'r	**Pwyllgor Craffu Partneriaethau**
Dyddiad y cyfarfod	**7 Gorffennaf 2022**
Aelod / Swyddog Arweiniol	**Y Cynghorydd Jason McLellan, Arweinydd / Emlyn Jones, Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad**
Awdur yr adroddiad	**Emlyn Jones, Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad**
Teitl	**Adroddiad Blynyddol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2021/22**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn sôn am waith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y Bwrdd) yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Ystyried Adroddiad Blynyddol/Chwarter 4 y Bwrdd ar ei waith a'i gynnydd yn ystod 2021-22.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod Aelodau yn ystyried cynnwys yr Adroddiad Blynyddol/Chwarter 4 ac yn rhoi sylwadau ac adborth arno.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ar 8 Rhagfyr 2020, cymeradwyodd y Cyngor y Fargen Dwf Derfynol gyda Llywodraethau'r DU a Chymru, gan gytuno i lunio cytundeb llywodraethu (GA2) fel sail ar gyfer llywodraethu gwaith y Bwrdd i gyflawni'r Weledigaeth Dwf a'r Fargen Dwf. Fel rhan o GA2, cytunwyd y byddai'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn

paratoi adroddiad chwarterol ar waith y Bwrdd, a'i rannu gyda phob sefydliad partner er mwyn ei gyflwyno ger bron y Pwyllgor Craffu.

4.2. Cytunwyd hefyd y byddai swyddog o'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn gallu mynd i gyfarfod craffu perthnasol unwaith y flwyddyn er mwyn ateb cwestiynau. Cytunodd y Pwyllgor Craffu y byddai'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn anfon cynrychiolydd i'r cyfarfod Craffu i ystyried yr Adroddiad Blynyddol/ Chwarter 4, a bod yr adroddiadau mewn perthynas â Chwarter 1, Chwarter 2 a Chwarter 3 yn cael eu cyflwyno er gwybodaeth.

4.3. Mae Adroddiad Blynyddol/Chwarter 4 y Bwrdd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn. Bydd swyddogion y Swyddfa Rheoli Portffolio, ynghyd â swyddogion perthnasol y Cyngor, yn bresennol yn y cyfarfod i ateb cwestiynau'r aelodau.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r Fargen Dwf wedi'i seilio ar themâu sy'n gyson â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau yn codi'n uniongyrchol o graffu'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad o'r effaith ar les.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Nid oes unrhyw ymgynghoriadau wedi'u cynnal gydag eraill.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Fel y nodwyd yn yr adroddiad eglurhaol, adroddiad diweddaru er gwybodaeth i'r aelodau yw hwn, ac nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol. Mae adrodd yn rheolaidd ar gynnydd Bargen Dwf Gogledd Cymru yn hanfodol er mwyn sicrhau cydymffurfiad â gofynion y llythyr dyfarnu cyllid a GA2.

10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau uniongyrchol yn gysylltiedig â chraffu'r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor.